# CAIS AM DDYFYNBRIS:

# Gwerthuso prosiectau peilot Addysg Hyblyg i Oedolion

**Hydref 2020**

ColegauCymru
Uned 7 CaeGwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB
Ff: 029 2052 2500
E: helo@colegaucymru.ac.uk
W: www.colegaucymru.ac.uk

CollegesWales
Unit 7 CaeGwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB
T: 029 2052 2500
E: hello@collegeswales.ac.uk
W: www.collegeswales.ac.uk

## 1. Gwybodaeth am y Cwmni

| | |
|---|---|
| **Enw'r Cwmni** | Colleges Wales / Colegau Cymru Limited<br>(Rhiant-gwmni Fforwm Services Limited) |
| **Rhif y Cwmni** | 2832103 |
| **Rhif yr Elusen** | 1060182 |
| **Is-gwmni** | Fforwm Services Limited |
| **Rhif yr Is-gwmni** | 3066192 |
| **Rhif TAW** | 655 9801 02 |
| **Swyddfa Gofrestredig a Chyfeiriad Gwaith** | Uned 7, Cae Gwyrdd<br>Greenmeadow Springs<br>Tongwynlais<br>Caerdydd<br>CF14 7TE |
| **Tîm y Prosiect** | Sian Holleran<br>Kelly Edwards |
| **Ffôn** | 029 20 522500 |
| **E-bost Cyswllt** | sian.holleran@colegaucymru.ac.uk<br>kelly.edwards@colegaucymru.ac.uk |

## 2. Cefndir

Elusen addysg yw ColegauCymru sy'n hyrwyddo budd cyhoeddus addysg bellach yng Nghymru. Credwn fod gan bob dysgwr hawl i addysg o'r radd flaenaf, a honno'n cael ei darparu mewn lleoliad diogel, amrywiol a chynhwysol ac mewn sector sy'n cefnogi'r economi, cyflogwyr a'r gymuned yn ehangach.

Ni hefyd sy'n cynnull Fforwm Penaethiaid Addysg Bellach, sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr addysg bellach.

Rydym yn cynnal ymchwil ac yn datblygu polisi, ac yn rhoi cefnogaeth ymarferol i'r gymuned addysg bellach. Gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, ei hasiantaethau, a rhanddeiliaid eraill, rydym yn helpu i lunio polisïau sy'n effeithio ar y sector addysg bellach, ei ddysgwyr, a'i staff.

ColegauCymru yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer addysg bellach yng Nghymru.

Cwmni preifat cyfyngedig yw Fforwm Services Limited ac mae'n is-gwmni sy'n berchen yn llwyr i ColegauCymru. Mae'n blatfform ar gyfer gweithgarwch masnachol sy'n creu incwm, ac yn ein galluogi i hwyluso digwyddiadau, hyfforddiant a chynadleddau sy'n benodol i'r sector.

## 3. Y Rhesymeg

3.1 Yn 2019, roedd ColegauCymru'n llwyddiannus wrth gael grant gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i dri choleg addysg bellach i dreialu dulliau newydd o ddarparu Addysg Hyblyg i Oedolion.

3.2 Wrth i Brexit a newidiadau ehangach i brosesau diwydiannol a phrosesau busnes greu bygythiadau newydd ac annisgwyl i gymunedau, mae'n bwysig bod colegau addysg bellach, fel sefydliadau angori yn eu cymunedau, yn gallu rhoi sylw i fygythiadau drwy fod yn arloesol a thrwy ymateb i ystod o anghenion na fydd dysgwyr yn dod ar eu traws fel arfer.

3.3 Roedd y grant dysgu gweithredol hwn yn helpu i ddarparu Addysg Hyblyg i Oedolion y tu allan i'r ddarpariaeth bresennol a geir yng Nghyfeirlyfr Rhaglenni Addysg Bellach ac fel rhan o fformat presennol y rhaglenni dysgu cyfredol.

3.4 Roedd y prosiectau'n ceisio canfod a dod o hyd i ddatrysiadau i rwystrau a'r ffactorau hynny sy'n atal oedolion rhag dysgu, fel ymrwymiadau gwaith, trafnidiaeth, gofal plant a chyfrifoldebau gofal eraill.

3.5 Roedd angen i'r prosiectau ddangos sut y gallai darpariaeth addasu mewn ffordd hyblyg i anghenion unigolion a chymunedau, gan ddefnyddio lleoliadau a dulliau gwahanol yn ogystal â chymorth arloesol i roi cyfleoedd addysg hyblyg, tymor byr, a rhan amser.

3.6 Y tri choleg a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y peilot oedd Coleg Sir Gâr / Coleg Ceredigion, Coleg Cambria a Choleg Penybont.

3.7 Cafodd y bwriad i gynnal gwerthusiad allanol o'r canlyniadau a'r hyn a ddysgwyd o'r 3 phrosiect eu cynnwys yn y cais am gyllid.

## 4.0 Y gwerthusiad

4.1 Mae ColegauCymru yn gwahodd cynigion gan sefydliadau i gynnal gwerthusiad o'r tri phrosiect peilot. Y nod fydd canfod y gwersi a ddysgwyd gan y colegau wrth ddarparu addysg hyblyg i oedolion, y tu allan i fformat presennol y rhaglenni dysgu cyfredol, a'r oedolion hynny'n perthyn i rai neu i'r holl grwpiau targed canlynol:

- pobl sy'n cael hysbysiad y gallant golli'u swyddi
- pobl sydd eisoes wedi colli'u swyddi (< 3 mis)
- oedolion eraill sy'n byw mewn aelwyd ac ynddi un neu ragor o bobl o'r ddau grŵp uchod.

4.2 Dylai'r gwerthusiad greu argymhellion i lywio'r strategaeth a'r cyllid yn y dyfodol, gan ystyried y canlynol:

- pa ddatrysiadau a ddatblygwyd i leihau'r rhwystrau a'r ffactorau hynny sy'n atal oedolion rhag gallu dysgu a chael hyfforddiant?
- pa hyblygrwydd oedd yn angenrheidiol er mwyn i'r hyfforddiant a ddarparwyd ateb anghenion unigolion a chymunedau?
- a ddefnyddiwyd cyrsiau tymor byr ac a wnaethant arwain at ennill cymhwyster cydnabyddedig, neu gredydau a arweiniodd at gymhwyster cydnabyddedig?
- pa bwyslais a roddwyd ar gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol?
- sut wnaeth y trefniadau cyllido gefnogi'r colegau i fod yn arloesol a hyblyg, a sut y gellid gwella hyn?

## 5.0 Gofynion

5.1 Disgwylir i'r cyflenwr gynnal gwerthusiad o'r tri phrosiect peilot er mwyn canfod pa wersi a ddysgodd y colegau wrth ddarparu addysg hyblyg i oedolion y tu allan i fformat presennol y rhaglenni dysgu cyfredol, gan gyflwyno argymhellion ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol am gyllid addysg oedolion yn y dyfodol. Dylai'r cyflenwr gyflwyno'r gwaith i

ColegauCymru ar ffurf adroddiad terfynol.

5.2 Disgwylir i'r gwaith ddechrau ar 9 Tachwedd 2020, gan gwblhau adroddiad drafft erbyn 8 Ionawr 2021, a'r adroddiad terfynol erbyn 12 Chwefror 2021.

5.3 Dylai'r cais esbonio'r fethodoleg a gaiff ei defnyddio i gyflawni amcanion y gwerthusiad. Rhaid i'r fethodoleg a ddisgwylir gynnwys yr elfennau canlynol:

- adolygiad o lenyddiaeth sy'n trafod polisïau presennol a chyn-bolisïau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ym maes addysg oedolion, gan gynnwys sut y mae'r cynllun peilot presennol yn cyd-fynd â'r wybodaeth sydd gennym/sut y mae'n herio'r wybodaeth honno
- dadansoddiad cymharol sy'n edrych ar bolisi addysg oedolion mewn gwlad neu ranbarth addas arall yn yr Undeb Ewropeaidd
- cyfarfodydd ar-lein/wyneb yn wyneb â'r rheolwyr prosiect ym mhob un o'r tri choleg
- cyfarfodydd ar-lein/wyneb yn wyneb â dysgwyr sydd wedi cymryd rhan yn y prosiectau
- creu adroddiad terfynol ac argymhellion
- paratoi cyflwyniad i Fforwm y Penaethiaid am yr argymhellion

5.4 Mae'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer monitro a rhoi diweddariadau am y prosiect i'w gweld isod, a byddant yn cael eu cadarnhau yng nghyfarfod cychwynnol y prosiect:

| **Cyfarfod** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cychwyn y prosiect | 13 Tachwedd 2020 |
| Cyfarfod monitro 1 | 16 Rhagfyr 2020 |
| Cyfarfod monitro 2 | 18 Ionawr 2021 |
| Cyfarfod monitro 3 | 27 Ionawr 2021 |
| Cyfarfod monitro 4 | 10 Chwefror 2021 |
| Cyfarfod monitro 5 | 12 Mawrth 2021 |

5.5 Fel rhan o'u cais, disgwylir i gyflenwyr ddatgan unrhyw berthynas neu gysylltiad sydd ganddynt ag unigolyn neu unigolion sy'n weithwyr o bwys, sydd wedi'u hethol, neu sydd wedi'u henwebu yn y sefydliadau sy'n rhan o gwmpas yr arolwg.

5.6 Disgwylir i'r cyflenwr gwblhau rhestr brisio a rhaid i TAW fod yn gynwysedig ynddi. Uchafswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y gwaith hwn yw £10500, ac

mae TAW yn gynwysedig yn hynny.

5.7 Er mwyn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg ColegauCymru, mae gofyn i'r adroddiad terfynol fod yn ddwyieithog ar ffurf dogfen MS Word, gydag 1 copi yn Gymraeg ac 1 copi yn Saesneg. Rydym yn dilyn yr egwyddor wrth gyflawni ein busnes cyhoeddus yng Nghymru na fyddwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae copi o'n cynllun ar gael ar ein gwefan.

## 6. Defnyddio'r canfyddiadau

6.1 Pan fydd y gwerthusiad wedi'i gwblhau, bydd y ddogfen yn cael ei defnyddio i roi adborth am y prosiectau peilot i Lywodraeth Cymru, Grŵp Strategol Dysgu Seiliedig ar Waith ColegauCymru, a Fforwm y Penaethiaid. Bydd yr argymhellion yn yr adroddiad yn cefnogi Llywodraeth Cymru i benderfynu ar strategaethau cyllido'r dyfodol ar gyfer addysg oedolion yn y sector addysg bellach yng Nghymru.

6.2 Dylai'r gwerthusiad fod mewn fformat y gellir ei gyhoeddi fel adroddiad unigol.

## 7. Amserlen

Dyma'r amserlenni:

| **Dyddiad** | **Gweithgaredd** |
|---|---|
| 16 Hydref 2020 | ColegauCymru i roi gwahoddiad i sefydliadau a ddewiswyd i gyflwyno dyfynbris a rhannu ar ei gwefan |
| 30 Hydref 2020 | Cyflwyno cynigion i ColegauCymru |
| 6 Tachwedd 2020 | Hysbysu'r sefydliad llwyddiannus a llunio contract |
| 13 Tachwedd 2020 | Dechrau'r prosiect |
| 13 Ionawr 2021 | Cyflwyno adroddiad ac argymhellion drafft i ColegauCymru |
| 29 Chwefror 2021 | Cyflwyno adroddiad ac argymhellion drafft i Lywodraeth Cymru |
| 26 Chwefror 2021 | Adolygiad diwedd prosiect ac ymgynghori â Phenaethiaid |
| 12 Mawrth 2021 | Rhannu'r adroddiad terfynol â ColegauCymru |
| 29 Mawrth 2021 | Rhannu'r adroddiad terfynol â Llywodraeth Cymru |

Dylid anfon y cynigion drwy e-bost at sian.holleran@colegaucymru.ac.uk erbyn 5pm, ddydd Gwener 30 Hydref 2020. Mae tîm y prosiect yn croesawu ymholiadau am y dyfynbris hwn hyd at ddydd Llun 26 Hydref 2020. Ni fydd gohebiaeth nac ymholiadau'n cael sylw yn ystod y cyfnod pan wneir penderfyniad am y contract.